# Gweithio Mewn Ffordd Deg:
# Pecyn cymorth ar gyfer amgueddfeydd a grwpiau cymunedol

Museums Association

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Cyflwyniad | 03 |
| 02 | Sefydlu partneriaethau teg | 05 |
| 03 | Arferion gweithio teg | 09 |
| 04 | Cynnal perthnasoedd teg yn y tymor hwy | 12 |
| 05 | Casgliad | 17 |
| 06 | Diolchiadau | 18 |

# Cyflwyniad

# 01



# Cyflwyniad

Mae tegwch mewn partneriaeth yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n gyfiawn, sy'n cydnabod yr anghydbwysedd grym rhwng amgueddfeydd a chymunedau ac yn mynd i'r afael ag ef, ac sy'n cyflymu'r broses o sicrhau canlyniadau hirdymor ffafriol i bawb.

Mae grwpiau cymunedol ac amgueddfeydd wedi bod yn cydweithio mewn ffyrdd sy'n fwyfwy cyfranogol, a hynny'n aml gan defnyddio casgliadau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a defnyddwyr, eu grymuso a'u cynrychioli'n well. A hwythau'n geidwaid casgliadau, gall ymddangos yn naturiol i amgueddfeydd gymryd rhan y partner arweiniol ond bydd hyn yn creu anghydbwysedd grym a all fod yn rhwystr i gyfranogwyr. Gall olygu nad yw'r cydweithio'n cyrraedd ei lawn botensial ac nad yw'r gwaith yn galluogi'r partneriaid i gyd i gyflawni eu nodau.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu amgueddfeydd a'u partneriaid cymunedol i greu a chynnal perthnasoedd sy'n fuddiol i'r partneriaid i gyd ac yn deg.

Mae'r pecyn cymorth yn dwyn ynghyd adnoddau gan amgueddfeydd a grwpiau cymunedol ochr yn ochr â syniadau a sylwadau gan rai sydd eisoes yn gweithio mewn partneriaethau teg rhwng amgueddfeydd a grwpiau cymunedol. Mae'n deillio o waith ymchwil a wnaeth Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) cyn lansio Cronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn. Roedd hwnnw'n cynnwys ymgynghori â grwpiau cymunedol sy'n gweithio'n rheolaidd gydag amgueddfeydd. Dywedwyd wrthym bod angen arweiniad i sicrhau bod y ddau fath o gorff yn gallu cael budd hirdymor o'r cyllid hwn.

> "Museums have a long track record of working with their communities, but often from a top-down position of power. The first step towards a more equal relationship is for museums to acknowledge this imbalance and to have open and honest conversations about how communities might want to work with museums. We hope that museums and their community partners can use this toolkit to develop and sustain more equal and mutually beneficial relationships."
>
> Sharon Heal, Cymdeithas yr Amgueddfeydd

# Sefydlu partneriaethau teg

02



# Sefydlu partneriaethau teg



## Cyflwyniad

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar gamau cynnar y berthynas rhwng grwpiau cymunedol ac amgueddfeydd. Gall y grŵp cymunedol neu'r amgueddfa fynd ati'n ffurfiol i gynnig partneriaeth, neu gall y berthynas ddatblygu mewn ffordd fwy organig. Efallai y bydd gan eich corff chi syniad pwy yr hoffech gydweithio â nhw cyn dechrau'r cam hwn ond mae'n bwysig bod yn hyblyg – dylai pawb yn y bartneriaeth gydweithio i lunio syniad.

Yn ôl Alison Pattison o Ganolfan Gymunedol Blackhall, dyma sut y datblygwyd eu gwaith nhw gydag Amgueddfeydd Prifysgol Durham:

"The introduction was from them, they came to me with their idea, which we kind of blew out of the water and recreated it into Street Museum."

Mae'r ffilm hon yn esbonio sut y datblygodd y prosiect a sut mae'r bartneriaeth wedi esblygu ers hynny i gynnwys rhagor o bartneriaid cymunedol ac adrannau prifysgol fel rhan o brosiect Street Cosmos.

## Penderfynu ar bartneriaid posibl

Os nad oes gennych bartner posibl dan sylw, y cam cyntaf er mwyn gweithio'n deg fydd penderfynu pwy yr hoffech eu holi. Mae'n bwysig i amgueddfeydd a grwpiau cymunedol feddwl am y cam hwn. Yn achos amgueddfeydd, gallent ystyried pa fath o bobl sydd ddim yn ymweld, neu pa leisiau sydd ar goll o gasgliadau a gwaith dehongli, neu pa arbenigedd sy'n brin. Neu efallai bod cysylltiadau naturiol rhwng y math o raglenni ac arddangosfeydd y mae'r amgueddfa'n eu cynnal a grwpiau cymunedol penodol ac y byddai hynny'n gwneud partneriaeth yn beth dymunol i'r naill a'r llall.

"The motivation for the project is important. Is it a tick box exercise for a museum to say we've done our bit for 'black history month' for example or is it a genuine desire to uncover histories."

Chantel Noel, Descendents

Mae yr un mor bwysig i grwpiau cymunedol ystyried pa amgueddfeydd sy'n rhannu eu hamcanion a'u diddordebau, ac a all amgueddfa fod yn bartner buddiol. Mae Ymchwilwyr Cynhwysol PurpleSTARS, Rix wedi darparu'r rhestr isod o bethau y gallai grŵp cymunedol ddymuno'u hystyried os yw'n bwriadu cydweithio ag amgueddfa:

- Chwilio am amgueddfeydd sy'n agored i wrando ar eich syniadau a'u cefnogi trwy roi amser, lle a chyllid.
- Cydweithio ag amgueddfeydd sy'n rhannu grym, gan sicrhau eich bod yn gweithio gyda staff ar bob lefel, fel cyfarwyddwyr, curaduron, a thimau ymgysylltu.
- Cydweithio ag amgueddfeydd sy'n agored i roi profiadau o gasgliadau mewn ffyrdd amgen.
- Partneru ag amgueddfeydd sy'n eich digolledu'n deg am eich amser a'ch cyfraniadau.
- Chwilio am amgueddfeydd sy'n rhoi lle, deunyddiau ac adnoddau eraill i gefnogi'ch gwaith.

Mae The Collaboration Guidebook, gan Take Note, yn cynnig llawer o ganllawiau gwych ar gyfer partneriaethau teg yn cynnwys Preparing for your Partnership Journey, sef set ddefnyddiol o gwestiynau y dylech geisio'u hateb cyn siarad â phartneriaid posibl. Dyma rai ohonynt:

- Beth yw'r her yr ydym yn ei hwynebu yn ein cymuned?
- Pa newid rydym ni'n gobeithio'i weld yn ein cymuned?
- Pa weithgareddau fyddem ni'n eu cyflwyno i wneud y newid hwn?
- Pa bartneriaid all ein helpu i wneud i hyn ddigwydd?
- Beth yw risgiau posibl gweithio gyda'r partneriaid hyn?
- Sut y gellid ariannu'r prosiect?

Mae'n werth cymryd peth amser i ystyried y cwestiynau hyn ac eraill, yn enwedig os nad ydych wedi cysylltu â phartner posibl hyd yma.

# Sefydlu partneriaethau teg

## Deinameg grym

Mae bod yn ymwybodol o effaith bosibl deinameg grym ar berthnasoedd yn rhan hanfodol o weithio'n deg.

Yn 2021 bu i Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban ac Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich ariannu amgueddfeydd i gynnal prosiectau partneriaeth ar gasgliadau o dan arweiniad cymunedau fel rhan o'u menter "Exchange". Maent wedi llunio adroddiad ac argymhellion i helpu amgueddfeydd a grwpiau cymunedol sy'n awyddus i weithio fel hyn.

> "Becoming a more participatory institution requires addressing power dynamics between museum and community participants. There will always be power dynamics and imbalances in participatory practice but what was important for participants was that these power dynamics were recognised and, where possible and appropriate, mitigated."
>
> Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban, Exchange Community-led Collections Research Recommendations for more Equitable Participation, t.18.

Mae hyn yn gofyn am sgyrsiau gonest ac, yn achos pobl mewn amgueddfeydd, parodrwydd i dderbyn canfyddiadau'r cymunedau ynghylch y ffordd y mae amgueddfeydd wedi gweithio yn y gorffennol ac, yn ogystal, i dderbyn arbenigedd o bob math, gan bob parti.

Ni fyddwch yn gallu dileu pob anghydbwysedd grym mewn prosiect neu ddarn o waith. Fodd bynnag, trwy gael sgyrsiau agored a buan gallwch fynd i'r afael â rhwystrau posibl a chanfod atebion lle bo modd. Er enghraifft, efallai y bydd rhaid i un sefydliad ofalu am y gyllideb, ond gallwch sefydlu system er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd am y defnydd a wneir o'r gyllideb.

Mae Francisco Carrasco o Luma Creations yn cynnig y cyngor hwn i fudiadau cymunedol er mwyn mynd i'r afael â rhai enghreifftiau o anghydbwysedd grym ar ddechrau perthynas:

> **"Community groups and communities are used to compromising to be able to do things. But you have to make a decision about what you will and won't do, how these things move forward, and who drives the project, and who controls the parameters of the project."**

## Sefydlu nodau cyffredint

Er mwyn creu partneriaethau teg, mae'n hollol hanfodol cytuno ar nodau sydd gennych yn gyffredin ar gyfer darn o waith. Mae canfod pethau sydd gan bob partner yn gyffredin yn cynnig pwynt cyfeirio hanfodol pan fydd angen i chi wneud penderfyniadau neu addasu'ch cynlluniau. Bydd gan bartneriaid rai gwahaniaethau hefyd a bydd cydnabod targedau unigol yn help i greu perthynas agored, llawn ymddiriedaeth. Mae Take Note yn awgrymu dull o sefydlu gwerthoedd sydd gan y bartneriaeth yn gyffredin fel ffordd o sicrhau perthynas decach.

Gall cytundebau partneriaeth fod yn ddefnyddiol er mwyn goresgyn anghydbwysedd grym a nodi'n glir beth yw'r nodau sydd gennych yn gyffredin. Gall y rhain fod yn hyblyg yn ôl eich anghenion, yn amrywio o ddogfennau mawr ffurfiol sy'n manylu ar yr holl ffyrdd y bydd y bartneriaeth yn gweithio, i gytundebau llai sy'n nodi elfennau penodol o'r berthynas, fel sut y bydd pobl yn cyfathrebu.

Cyflwynodd Rix Inclusive Researchers "reolau sylfaenol" wrth bennu sut y dylai cyfarfodydd weithio yn ystod eu Tower Project gyda'r Amgueddfa Brydeinig. Gall hwn fod yn offeryn defnyddiol i bennu ffiniau clir o ddechrau'r berthynas.

Awgryma Take Note y dylai'r elfennau a ganlyn fod yn rhan o gytundeb partneriaeth:

- Datganiad o fwriad
- Manylion y prosiect
- Rolau a chyfrifoldebau
- Marchnata a chyfathrebu
- Canslo neu derfynu

Dylid llunio'r cytundeb ar y cyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y partïon i gyd ac anghenion y cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

# Sefydlu partneriaethau teg



Rhannodd Francisco Carrasco y profiad o lunio cytundeb partneriaeth rhwng Luma Creations ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl ar gyfer eu gwaith "Cuerpos del Tiempo (Bodies of Time)":

> "The creation of an equitable partnership agreement had to be done in partnership, so that we were all very clear and very transparent about how we would work together. I want to ensure that when communities are engaged, they're engaged in a way in which they feel that that they do have a voice."

Dylai cytundebau partneriaeth gydnabod gwahanol safbwyntiau yn ogystal â nodau a rennir a dylent egluro sut y cyflawnir gwahanol elfennau o brosiect neu ddarn o waith, er enghraifft pwy fydd yn gwneud beth a phryd, sut y gwneir penderfyniadau, sut y byddwch yn cyfathrebu â'ch gilydd a pha mor rheolaidd y byddwch yn adolygu'r bartneriaeth. Mae gan Take Note ganllaw defnyddiol ar gyfer creu map effaith fel offeryn ar gyfer cytuno ar wahanol elfennau hanfodol o'ch gwaith, fel canlyniadau, cenhadaeth a gweledigaeth.

Mae offer eraill y gallech eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn gweithio'n deg o'r dechrau. Yn achos darnau o waith unigol sy'n canolbwyntio ar nodau, efallai yr hoffech greu Theori Newid a gall yr adnoddau isod eich helpu:

The NCVO Theory of Change guidance

Pecyn Cymorth 'Mesur Gwaith sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas' gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd




Cha Chai Tea Exhibition, Horniman Museum and Gardens

# Arferion gweithio teg

# 03



## Cyflwyniad

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar ffyrdd o gynnal yr elfennau o berthnasoedd gwaith teg sy'n codi o ddydd i ddydd. Hyd yn oed os trefnwyd cytundeb partneriaeth, mae angen gofal ar berthnasoedd teg. Trwy roi amser i bob partner gynnig sylwadau a chael agwedd hyblyg at ffyrdd o weithio, bydd cyfleoedd i addasu prosesau a gwneud y gorau o'r bartneriaeth. Mae'n bwysig cynnig cyfleoedd go iawn i gyfranogwyr cymunedol gyfrannu at y bartneriaeth hefyd ac ystyried talu pobl am y gwaith hwn.

## Cadw mewn cysylltiad

Mae cyfathrebu'n hanfodol i lwyddiant partneriaeth deg.

Dylid penderfynu ar ddechrau partneriaeth pa mor aml y byddwch yn cyfarfod am sgwrs ac i werthuso'r gwaith a'r bartneriaeth, ond dylech bob amser fod yn barod i newid hyn. Os ydych wedi cytuno i gael sgwrs bob mis, gofynnwch o bryd i'w gilydd, "Ydi hyn yn dal i weithio i bawb?"

Dyma awgrym Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban:

> "Negotiate and list any key milestones or activities that are essential for your project from the start and keep them as part of the scope of any decision making but be clear that non-essential plans can be changed. Build in scheduled and ad-hoc moments for reflection where project aims, objectives and outputs can be reviewed and revised if desired. Return to the question 'why' are we doing this and allow for flexibility with the 'what', 'who', 'how' and 'when' of activity planning."
>
> Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban, Exchange Community-led Collections Research Recommendations for more Equitable Participation, t.30.

Mae Take Note wedi llunio canllaw Partnership Health Check i helpu i werthuso'r bartneriaeth yn rheolaidd a sicrhau ei bod yn dal yn deg ac yn effeithiol.

## Gwneud penderfyniadau ar y cyd

Gellir defnyddio'r cyfarfodydd rheolaidd uchod i wneud penderfyniadau ar y cyd hefyd. Dylai'ch cytundeb partneriaeth nodi sut y byddwch yn gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd, ond mae angen bod yn barod i ailedrych ar hyn a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio i bawb.

> "I think the key thing is, is don't lose yourself. Don't be sucked into the world of museums. They've come to you for a reason. They can be big enough and bold enough to trust in your decisions. There are lots of things that museums do because they've always done it that way, but if they want to get new people in and they want to work with you to do this then they've got to be willing for everybody to be equal."
>
> Alison Paterson, Canolfan Gymunedol Blackhall

Mae cyllidebu yn un maes y mae angen ei ystyried yn ofalus. Mae'n debygol mai un partner fydd yn gofalu am y gyllideb, ond dylai'r penderfyniadau ar sut i'w gwario fod yn rhai teg.

Mae gan y Nonprofit Finance Fund ganllaw defnyddiol i gyllidebu teg a gellir ei gymhwyso i gyllidebau tymor byr neu gyllidebau prosiectau yn ogystal ag i gyllidebau sefydliadau yn ehangach.

Bu Paisley Museums Reimagined yn cydweithio â phartneriaid i addasu'r gyllideb ar gyfer eu grant o Gronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn. Dyma sut y rhannodd Aileen Strachan, Rheolwr Cyflenwi Cynnwys, y profiad hwn:

> "Unsurprisingly the budget has been one of the trickier conversations but we want it to be seen as jointly held, just administered by us."

O ganlyniad i'r sgyrsiau, cafwyd nifer o newidiadau pwysig, er enghraifft yn y ffordd o benderfynu ar gyflogau:

> "We had a chat where we suggested a payscale in line with our curators. That initially met with approval but then was queried and a slightly higher rate was suggested and discussed. This chimed with some discomfort we'd been feeling as we discussed the strategic nature of the work the partners would be doing, so we instead suggested the same day rate as managers are paid. Each time we were transparent about the calculations we'd made. Each partner was happy with that suggested rate."

Mae ystyried sut i dalu pobl am eu hamser yn un maes cyllidebol y dylch roi amser i'w drafod. Dyma rai adnoddau a all eich helpu i wneud hyn:

Museums Journal, In Practice article on Reimbursing participants

The Social Change Pod episode on Payment for Involvement

The Scottish Government Guidance: paying participant expenses and compensating for time

## Astudiaeth achos:

## Gwneud penderfyniadau ar y cyd i gyd-gynhyrchu arddangosfa 茶,चाय, Te (Chá, Chai, Tea) yn Amgueddfa a Gerddi Horniman

Cafodd Amgueddfa Horniman gefnogaeth Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn i gynyddu ei chynulleidfaoedd o gymunedau yn Llundain sydd o dras De Asia, a Dwyrain a De-ddwyrain Asia, trwy gydgynhyrchu arddangosfa dros dro. Roedd 茶,चाय, Tea (Chá, Chai, Tea), yn archwilio hanes byd-eang te ac yn mynd i'r afael â gwaddol drefedigaethol yr amgueddfa, dan arweiniad partneriaid o gymunedau o dras De Asia, a Dwyrain a De-ddwyrain Asia.

Roedd gwneud penderfyniadau ar y cyd ar sail gyfartal ac arferion gweithio cynhwysol o dan arweiniad cymunedau yn allweddol i gydweithio. Roedd pob un o'r partneriaid cymunedol yn gyfrifol am ei gyllideb ei hun ac am greu cynnwys ar gyfer y maes arddangos a ddewiswyd ganddo. Nhw oedd yn arwain ar bob agwedd o'r arddangosfa, yn cynnwys penderfynu ar gynulleidfa darged, datblygu naratifau'r cynnwys, dehongli a dylunio.

Roedd cydweithio ar y lefel hon yn her i ddisgwyliadau'r amgueddfa. Er enghraifft, daeth yn amlwg bod y partneriaid cymunedol o'r farn fod cyfrifoldeb ar yr amgueddfa i drafod trefedigaethedd a'i effeithiau. Ac, yn groes i feddylfryd traddodiadol amgueddfeydd, pan aeth un o'r partneriaid ati i gynnwys ei ffilm 14 munud wedi'i golygu'n briodol, gwelodd yr amgueddfa fod pobl yn aros i'w gwylio i gyd.

Gyda'r cyllid roedd modd i'r amgueddfa dalu arian teg i bawb oedd yn cymryd rhan am eu hamser, eu profiad bywyd a'u sgiliau. Mae'r partneriaid yn rhannu'r hawlfraint yn y cynnwys a grëwyd ganddynt ac maent yn rhydd i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau eraill.

Dangosodd Chá Chai Tea i'r amgueddfa fod model gwirioneddol gyfranogol yn llwyddo i greu ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy sy'n gwneud yr amgueddfa'n fwy effeithiol, a bod cynnwys arian ac amser ar gyfer hynny yn y costau datblygu craidd yn golygu y gellir dechrau cydweithio'n llawn o'r dechrau'n deg. Mae'r amgueddfa eisoes yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu er mwyn annog cymunedau eraill yn yr ardal i gasglu eitemau cyfoes a bydd gwerthusiad y prosiect yn llywio gwaith yr amgueddfa yn y dyfodol.




Arddangosfa Te Cha Chai, Amgueddfa a Gerddi Horniman

# Cynnal perthnasoedd teg yn y tymor hwy

04



# Cynnal perthnasoedd teg yn y tymor hwy



## Cyflwyniad

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar y pethau sydd i'w hystyried os hoffech fynd â'ch partneriaethau teg y tu hwnt i brosiectau tymor byr neu gyfnodau ariannu. Bydd angen i chi ystyried sut i sicrhau bod y berthynas wedi bod yn ystyrlon i bob partner a sut y gallwch barhau â'r ddeialog hyd yn oed os yw'r cyllid wedi dod i ben. Gall sôn am fanteision y bartneriaeth fod yn rhan fawr o hyn, boed hynny wrth gyllidwyr neu randdeiliaid lefel uwch.

> "The difference with museums is that they do a thing and then the thing's over, they don't look for the next thing. They need to ask 'when can we work with you again?' It's about not dropping everybody just because that piece of work is over. We had such a great time. Why wouldn't we want to do something else? Why would I want to find and build a whole new relationship when I've already got a working relationship that really, really works? And if somebody else happens to come into the fold as a result of that, then we'll work with them too. And that's how a family tree should grow. Don't lose those connections. Don't just see us as a one-trick pony. We're here for a long time."
>
> Alison Paterson, Canolfan Gymuned Blackhall

## Gwerthuso'r effaith

Dylai'r broses o gynnal perthnasoedd teg yn y tymor hir fod wedi dechrau cyn i unrhyw bartneriaeth ffurfiol neu bartneriaeth a ariannwyd ddod i ben. Mae pecyn cymorth Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Mesur Gwaith sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas, yn ganllaw defnyddiol ac efallai yr hoffech ei ddefnyddio hyd yn oed cyn i'r gwaith ddechrau fel y gallwch gymryd y camau cywir i'w werthuso. Fel rhan o'r broses werthuso, dylai pob partner ystyried a yw'r berthynas wedi gweithio iddyn nhw. Mae Francisco Carrasco o Luma Creations yn esbonio pa mor bwysig yw hyn yn eu gwaith gydag Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl:

> "Legacy wise, I think it's a lot better to create something that can be built on. With National Museums Liverpool, when we were discussing the evaluation plans, I told them that I wanted one part of the evaluation to be about the partnership. Within a project this can be the one thing that could be a true legacy. And the legacy doesn't have to be a big thing, but it does have to be something that will make a difference. Sometimes that's something as simple as a display or exhibition that creates something that people can remember and that gives people a voice so that they feel heard. Sometimes it's about infrastructure. But it's not about the money, it's about the relationship."

Gall ymarfer myfyriol fod yn offeryn defnyddiol i bob partner ei ddefnyddio trwy gydol eu perthynas. Gall agor eich llygaid i lwyddiant ac effaith y berthynas. Mae angen defnyddio gwahanol offer a thechnegau i edrych yn ofalus ar y camau rydych wedi'u cymryd a myfyrio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a sut rydych wedi datblygu. Mae angen meddwl beirniadol a'r gallu i gydnabod y gallwn ddysgu o'r pethau nad aeth yn dda yn ogystal â'r pethau llwyddiannus. Mae gan The Thinking Museum adnodd a phodlediad defnyddiol yn ganllaw i'r broses hon.

# Cynnal perthnasoedd teg yn y tymor hwy



## Parhau â'r sgwrs

Weithiau gall grwpiau cymunedol deimlo bod amgueddfeydd yn troi eu cefn arnynt ar ôl gwaith prosiect tymor byr, yn enwedig os mai'r amgueddfa oedd yn arwain y gwaith. Fel yr eglura Kate Allen o PurpleSTARS:

"We often feel like we're invited to events about inclusion without seeing real change, or brought in late in projects when budgets are nearly exhausted, reducing our contributions to a 'box-ticking' exercise."

Os yw'r bartneriaeth wedi'i datblygu'n deg a'r gwaith wir wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y partneriaid, dylai fod yn hawdd osgoi'r math hwn o docenistiaeth. Fodd bynnag, mae yna bethau y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn cael effaith ystyrlon.

Bydd gan bartneriaid cymunedol eu barn eu hunain am y ffordd yr hoffent barhau i gydweithio ag amgueddfa sy'n bartner iddynt. Dylech sicrhau bod nifer o wahanol bobl yn rhan o'r cyfathrebu gan ei gwneud yn fwy tebygol y gellir parhau â'r berthynas hyd yn oed os bydd toriad yn y cyllid fel na ellir cydweithio'n ffurfiol. Gellid gwneud hyn trwy chwilio am gyfleoedd i gadw mewn cysylltiad neu gydnabod cyfraniad partneriaid, trwy eu cynnwys ar fwrdd ymddiriedolwyr er enghraifft.

"Make sure that there's not only one person on a short-term contract engaged with us, because when they go then we've lost our connection. People should be treated and trusted as professionals, having some agency in the museum or the institution build, building trust and agreeing on how to communicate and how to share our ideas, thoughts and information." meddai Kate. Awgryma hefyd y dylai amgueddfeydd chwilio am gyfleoedd i gyflogi pobl y maent wedi cydweithio'n effeithiol â nhw fel rhan o bartneriaeth:

"It's important that you don't feel like you're thrown away when the project money runs out so employ people to work in museums, offer supported internships or shadowing opportunities. It's about sharing a bit of that power that people have in institutions."

Dylech drafod sut y bwriadwch gadw cysylltiad ar ôl cwblhau darn o waith, pwy fydd y prif bwyntiau cyswllt ar hyn a sut y byddwch yn cadw drysau'n agored ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.



# Cynnal perthnasoedd teg yn y tymor hwy

## Astudiaeth achos: Y berthynas yn parhau rhwng Paxton House a Descendants

Mae Descendants yn elusen blant arobryn yn Llundain sy’n ymroi i gyfoethogi bywydau plant a phobl ifanc o dras Affricanaidd a Charibïaidd yn bennaf.

Yn ystod 2022 buont yn cydweithio â Paxton House yng Ngororau’r Alban ar y prosiect, “Parallel Lives, World Apart” a fu’n archwilio cysylltiadau Paxton â chaethwasiaeth yn Grenada.

Bu 60 o blant 4-16 oed o elusen Descendents yn cymryd rhan mewn gweithdai ar-lein a gweithgareddau creadigol gan arwain at arddangosfa barhaol a thaith hunan-dywys “Sugar and Slavery” yn Paxton. Teithiodd pum deg pump o aelodau Descendants o Lundain i “Caribbean Connections Celebration” Paxton House i lansio’r arddangosfa. Mae’r ffilm fer hon yn rhoi sylw i’r dathliad hwnnw.

Dechreuodd y berthynas rhwng Paxton House a Descendants yn 2007 pan gysylltodd ymddiriedolwyr Paxton a’r teulu Home, oedd yn byw yn y tŷ, â’r elusen am y tro cyntaf. Ers i Parallel Lives ddod i ben, mae’r sgyrsiau rhwng Descendants a Churadur Paxton, Dr Fiona Salvesen Murrell, wedi parhau. Ym mis Mawrth 2024 dyfarnwyd rhagor o gyllid i Paxton gan raglen Museum Galleries Scotland, Delivering Change, fel y gall y bartneriaeth barhau.



Paxton House

## Cynnwys rhanddeiliaid lefel uwch

Weithiau, yn enwedig mewn sefydliadau mawr, gellir creu partneriaethau teg ar lefel swyddogion neu ymarferwyr ond, heb gydnabyddiaeth rhanddeiliaid ar lefel uwch, ni ellir gwneud ymrwymiadau hirdymor. Er enghraifft, efallai'ch bod wedi gweithio'n effeithiol ar lefel weithredol ond heb i'r corff llywodraethu a'r arweinyddion ddeall beth a wnaed a sut y bu o fudd i bob un o'r partneriaid, efallai na chaiff parhad y bartneriaeth ei gynnwys mewn cynlluniau strategol, tymor hwy. Dylai'ch gwerthusiad fesur i ba raddau rydych yn symud tuag at y canlyniadau dymunol ac esbonio manteision y bartneriaeth, a dylai hyn fod yn ddefnyddiol wrth gyflwyno'r achos i randdeiliaid lefel uwch. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio wrth ddadlau dros hynny bod pob partner wedi elwa mewn rhyw ffordd o'r berthynas.

Er mwyn cadw golwg ar hynt y bartneriaeth, gallai amgueddfeydd ddefnyddio fframwaith Power to the People. Mae hwn yn galluogi amgueddfeydd i feincnodi eu harferion cyfranogol ar ddechrau a diwedd cyfnod gwerthuso – yn ddelfrydol mewn trafodaeth â phartneriaid cymunedol – i weld sut mae eu harferion gweithio wedi newid a pha wahaniaeth mae hynny'n ei wneud. Os gall rhanddeiliaid lefel uwch weld budd perthnasoedd teg i'r sefydliad, maent lawer yn fwy tebygol o gyfeirio amser ac arian i'w cynnal.

> "It's not just about short-termism. Value different ways of working and get them into your organisational DNA."
>
> Tony Heaton, cerflunydd, cadeirydd Shape Arts, ac Aelod o Fwrdd Cymdeithas yr Amgueddfeydd

# Casgliad

# 05

Mae amgueddfeydd a phartneriaid cymunedol yn gallu ffurfio partneriaethau effeithiol a theg a all fod o fudd enfawr i'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw ac, yn wir, maent eisoes yn gwneud hynny. Bydd pawb yn dod â set wahanol o sgiliau at y bwrdd a dylid gwerthfawrogi'r arbenigedd hwnnw. Yr hyn sy'n allweddol yw rhoi amser i ystyried sut y bydd y berthynas yn gweithio a chynnwys mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu'n onest ac yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod. Gofynnwch i chi'ch hunan pam y mae'r partner hwn yn dymuno gweithio gyda chi yn y lle cyntaf a gofalwch fod pawb yn deall cymhellion y naill a'r llall dros weithio gyda'i gilydd. Fe welwch yn fuan y bydd cydweithio teg yn arwain at bethau gwych.

# Diolchiadau

06

Diolch i'r bobl a'r sefydliadau isod am gyfrannu at y pecyn cymorth hwn trwy gymryd rhan mewn cyfweliadau a rhannu adnoddau:

- Aileen Strachan, Paisley Museum Reimagined
- Alison Paterson, Canolfan Gymunedol Blackhall
- Chantel Noel, Denise Charles a Margaret Noel, Descendants
- Sefydliad Esmée Fairbairn
- Francisco Carrasco, Luma Creations
- Amgueddfa a Gerddi Horniman
- Kate Allen ac Ymchwilwyr Cynhwysol PurpleSTARS Rix, Ajay Choksi, Baljit Kaur, Gosia Kwiatkowska, Kanchan Kerai, Kiran Dhillon, Lee Phillips, Ros Weinberg, Rufaro Asuquo, Samantha Walker
- Ollie Douglas a Phillippa Heath, Museum of English Rural Life
- Tony Heaton, cerflunydd, cadeirydd Shape Arts, ac Aelod o Fwrdd Cymdeithas yr Amgueddfeydd

Museums Association

**Museums Association**
42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800
www.museumsassociation.org